

Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2020-21

Mehefin 2021

CYNNWYS

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Cefndir**
- 3. Materion yn codi yn ystod y Cyfnod Adrodd - Gweithredu'r Safonau:**
 - 3.1 Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**
 - 3.2 Safonau Llunio Polisiâu**
 - 3.3 Safonau Gweithredol**
 - 3.4 Safonau Cadw Cofnodion**
- 4. Addysg Gymraeg**
- 5. Casgliadau ac Argymhellion**

1. Cyflwyniad

Dyma'r pumed adroddiad blynyddol ers i'r safonau ddod i rym ac mae'n cynnig trosolwg o'r gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Mae'r adroddiad mewn fformat ychydig yn wahanol eleni, gyda'r nod o ddilyn arweiniad yr adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd ym mis Medi 2020.

Yn gyffredinol, roedd 2020-21 yn flwyddyn heriol iawn oherwydd pandemig COVID-19. Cafodd staff a chynghorwyr eu hailgyfeirio i gefnogi preswylwyr a busnesau yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer meysydd fel: Banciau bwyd, gan gefnogi'r rheini a oedd yn gwarchod i gael gafael ar fwyd a phresgripsiynau, a sefydlu gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) lleol. Yn ogystal, helpu preswylwyr i gael cymorth ariannol ar gyfer prydau ysgol am ddim, wrth hunanynysu, a thaliadau i ofalwyr. Darparwyd cymorth ariannol hefyd i fusnesau lleol.

Mae Cyngor Abertawe yn parhau i fod yn ymrwymedig i Safonau'r Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys enghreifftiau ac uchafbwyntiau prosiectau a gweithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn i fodloni'r safonau. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwaith neu gamau gweithredu o ganlyniad i unrhyw adborth, ymchwiliadau neu waith monitro gan y Comisiynydd, neu o ganlyniad i gwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan y cyhoedd. Mae'n gorffen gydag argymhellion ar gyfer y dyfodol.

2. Cefndir

Ers 30 Mawrth 2016 bu'n ddyletswydd statudol ar yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan y Mesur drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg).

Bwriad y safonau yw:

- sicrhau nad yw sefydliadau'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (a'i gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd pob dydd).

Nod y safonau yw:

- ei gwneud hi'n eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg.
- ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg.
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

2.1 Safonau Cyngor Abertawe

Rhestrir y safonau a roddwyd i Ddinas a Sir Abertawe mewn hysbysiad cydymffurfio - Is-adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae copi o'r safonau hyn ar gael ar wefan gyhoeddus y cyngor yn: <https://www.abertawe.gov.uk/cymraeg> <https://www.swansea.gov.uk/cymraeg>

Yr hysbysiad hwn, y cytunwyd arno â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yw'r ddogfen gyfredol sy'n llywodraethu ein cydymffurfiad.

Mae'n ofynnol i Abertawe gydymffurfio â **163 o safonau ar draws 5 categori** fel a ddangosir yn nhabl 1 isod:

Tabl 1: Safonau i Gyngor Abertawe gydymffurfio â hwy

Cyngor Abertawe		
	Categoriâu	Nifer y Safonau
1	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	86
2	Safonau Llunio Polisiâu	16
3	Safonau Gweithredol	51
4	Safonau Hyrwyddol	2
5	Safonau Cadw Cofnodion	8
	Cyfanswm	163

2.2 Atebolrwydd

Y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n parhau i fod yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol ar gyfer y Gymraeg. Gweithredir y Safonau o ddydd i ddydd yn gorfforaethol drwy'r Prif Swyddog Trawsnewid i lawr i wasanaethau drwy Benaethiaid Gwasanaeth. Mae gan bob maes gwasanaeth hyrwyddwr y Gymraeg sy'n brif ffynhonnell gwybodaeth berthnasol (dwyffordd) i'w meysydd a'u harferion gwaith.

Yn ystod 2020-21 crëodd y cyngor swydd newydd, sef y Swyddog Safonau. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r swydd yn cael ei recriwtio ar hyn o bryd. Bydd y Swyddog Safonau yn siaradwr Cymraeg ac yn gyfrifol am y gwaith corfforaethol o weithredu'r Safonau o ddydd i ddydd a hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol gan y Prif Swyddog Trawsnewid.

Mae Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau yn hyrwyddo Safonau'r Gymraeg ar lefel wleidyddol. Mae Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau hefyd yn cefnogi Safonau'r Gymraeg drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Safonau'r Gymraeg, yr Uned Gyfieithu a phwynt cyswllt cyntaf dwyieithog ar gyfer llawer o wasanaethau'n cael eu rheoli gan Wasanaethau Cwsmeriaid ac mae llawer o unigolion yn y tîm sydd bellach yn gallu cynnig cyngor ynghylch cydymffurfio â'r Safonau.

Cyflwynir yr Adroddiad Blynnyddol hwn i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (yr uwch-reolwyr) a'r Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid (y Pwyllgor Craffu) cyn ei gyhoeddi.

Mae'r Polisi Cwynion Corfforaethol yn nodi proses y cyngor ar gyfer ymdrin â chwynion am gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, a hyfforddi staff.

3. Materion yn codi yn ystod y Cyfnod Adrodd - Gweithredu'r Safonau

3.1 Trefniadau Cyffredinol

Mae 2020-21 wedi bod yn flwyddyn heriol i weithrediadau Llywodraeth Leol oherwydd pandemig byd-eang COVID-19. Bu'n rhaid i holl wasanaethau'r cyngor fod yn arloesol a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu cyflenwi yn y byd 'rhithwir' newydd lle mae angen cadw pellter cymdeithasol. O ganlyniad, bu'n rhaid gwneud yr holl newidiadau hyn yn gyflym a'u cyfleu'n ddwyieithog ac rydym yn ddyledus i'n Huned Gyfieithu am reoli'r galw cynyddol mor drawiadol yn ystod y cyfnod hwn.

Yn gyffredinol, mae'r cyngor wedi parhau i wneud gwelliannau ar weithredu Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn, er gwaethaf y pandemig. Mae adborth cyffredinol yn dangos bod swyddogion yn fwy hyddysg mewn perthynas â gofynion y Safonau.

Y flaenoriaeth yw parhau i ganolbwyntio ar safonau Cyflenwi Gwasanaethau gan mai'r rhain sydd fwyaf niferus (86) a rhain sydd fwyaf gweladwy i'r cyhoedd, a denodd y meysydd cwynion yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwaith ar y Safonau Gweithredol yn parhau i ddatblygu, yn enwedig am eu bod yn berthnasol i'r gofynion mewn perthynas â gweithlu'r awdurdod.

Amlygir gweithgarwch cydymffurfio penodol yn ystod y flwyddyn isod ac yn yr adrannau diweddarach:

Y Grŵp Safonau	Camau a gymerwyd yn ystod 2020-21	Camau i'w cymryd yn y flwyddyn i ddod
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<ul style="list-style-type: none">▪ Recriwtiwyd a cheisiwyd siaradwyr Cymraeg yn rhagweithiol i'r tîm Profi, Olrhain, Diogelu (POD)▪ Ychwanegwyd rhagor o adnoddau yn y Gymraeg ar brif linell ffôn y cyngor ac wyneb yn wyneb yn y Ganolfan Ddinesig (argymhelliad o waith monitro'r Comisiynydd)▪ Mae'r system ffôn newydd wedi gwella gwydnwch a mynediad i siaradwyr Cymraeg ar brif rif ffôn y cyngor (gweler adran 3.1.2 o'r adroddiad hwn)▪ Cyflwynwyd prosiect awtomeiddio newydd yn yr Uned Gyfieithu (gweler adran 3.1.4)▪ Datblygwyd system gwynion newydd (gweler adran 3.1.4)▪ Adolygwyd strwythur corfforaethol canolog y Gymraeg er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth a chreu swydd Swyddog Safonau sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd (gweler adrannau 2.2 a 3.1.3)▪ Ychwanegwyd swydd ychwanegol at yr Uned Gyfieithu i atgyfnerthu'r	<ul style="list-style-type: none">▪ Cwblhau'r prosiect e-Ddemocratiaeth▪ Swyddog Safonau yn ei swydd▪ Cwblhau'r prosiect awtomeiddio▪ Cwblhau'r system gwynion

Y Grŵp Safonau	Camau a gymerwyd yn ystod 2020-21	Camau i'w cymryd yn y flwyddyn i ddod
	<p>gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (gweler adran 3.1.3)</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Datblygiadau ymgeisio dwyieithog yn ystod y pandemig gan gynnwys: Prydau ysgol am ddim, taliadau i ofalwyr a'r rheini sy'n hunanynysu ▪ Ap cam-drin domestig newydd sy'n ddwyieithog ▪ Symudodd y cyfarfodydd i fod yn rhai rhithwir yn ystod y pandemig. Dyfarnwyd grant o'r Gronfa Democratiaeth Ddigidol i uwchraddio cyfarpar a meddalwedd i alluogi cyfarfodydd rhithwir ac annog mwy o gyfranogiad gan gynnwys siaradwyr Cymraeg (adran 3.3.9) 	
Safonau Llundio Polisïau	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Adolygwyd y Polisi Cwynion. Darparwyd adborth defnyddiol gan swyddfa'r Comisiynydd ar y polisi diweddaedig (adran 3.4) ▪ Aseswyd yr holl adroddiadau drwy'r Cabinet/cyngor am yr effaith ar y Gymraeg drwy'r broses Aseiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) ▪ Wedi'u hintegreiddio i gynlluniau strategol (adran 3.2.2) 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Yr effaith ar y Gymraeg i'w wreiddio'n llwyr yn yr Aseiad Effaith Integredig (AEI) ▪ Sesiynau hyfforddi/ymwybyddiaeth i lunwyr polisi ar ganllawiau'r côd ymarfer
Safonau Gweithredol	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae'r cyngor yn bwriadu cyflwyno proses panel torri rheolau a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu ymagwedd lwyddiannus iawn sydd eisoes ar waith yn y cyngor ar gyfer toriadau data a llywodraethu gwybodaeth ▪ Hyrwyddwyd cyrsiau Cymraeg ar hafan mewnrwyd y cyngor ac mewn straeon newyddion. Cafwyd ymateb da iawn i'r ffaith bod y dosbarthiadau wedi symud ar-lein oherwydd COVID-19, ymateb gwell na chysiau wyneb yn wyneb (gweler adran 3.3 am ragor o wybodaeth) 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Proses y panel torri rheolau yn fyw ▪ Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi'i gynnull ▪ Archwilio Cymraeg gorfodol wrth recriwtio oni bai fod prinder penodol yn y farchnad ar gyfer sgil penodol ▪ Adolygu'r strategaeth pum mlynedd ▪ Archwilio ffyrdd o ddenu siaradwyr Cymraeg i weithio i'r cyngor o ysgolion cyfrwng Cymraeg, prifysgolion a cholegau addysg bellach
Safonau Hyrwyddol	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Gweithgarwch hyrwyddo allweddol yn ystod pandemig COVID-19 i'r cyhoedd ac i'r staff – a gyhoeddwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y wefan a'r fewnrwyd ▪ Ynghyd â'r hyrwyddiadau rhithwir ar Ddydd Gŵyl Dewi (oherwydd y cyfyngiadau symud), gwnaeth y 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Adolygu gweithdrefnau brys a phrofiadau o'r pandemig o ran y ddarpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Y Grŵp Safonau	Camau a gymerwyd yn ystod 2020-21	Camau i'w cymryd yn y flwyddyn i ddod
	<p>cyngor ymgyrch arbennig ar gyfer Diwrnod Hawliau'r Gymraeg ar 7 Rhagfyr 2020. Roedd hyn yn cynnwys aelodau o'r Uned Gyfieithu yn recordio fideos YouTube i'w lledaenu ar draws y cyngor</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Crëodd y cyngor dudalen Facebook Gorfforaethol ar gyfer cynnwys Cymraeg i helpu i ddatrys problemau am gynnwys Cymraeg a Saesneg nad yw'n cyfateb (roedd cyfrif Twitter @CyngorAbertawe ar wahân eisoes) (argymhelliad o waith monitro'r Comisiynydd) 	
Safonau Cadw Cofnodion	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Sefydlu safle <i>Microsoft Teams</i> y mae gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth fynediad iddo ar gyfer adnoddau'r Gymraeg a chael ymwybyddiaeth/dysgu o unrhyw gwynion 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cwblhawyd system newydd ar gyfer cofnodi a monitro cwynion, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

3.1.1. Cyfeiriadau e-byst

Mae'r holl gyfeiriadau e-bost unigol ac adrannol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel y gall preswylwyr a busnesau sy'n siarad Cymraeg gysylltu trwy'r cyfeiriad Cymraeg. Disgwylir i staff roi eu cyfeiriad @abertawe.gov.uk a'u cyfeiriad @swansea.gov.uk yn eu llofnod e-bost. Yn ogystal â hyn, rhaid i bob e-bost allanol gynnwys troednodyn dwyieithog awtomataidd sy'n cynnwys:

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.

3.1.2 Ffôn

Mae cyflwyniad y system ffôn newydd bellach wedi'i gwblhau ac mae wedi bod ar gael yn llawn ers iddi gael ei rhoi ar waith, sy'n welliant mawr ar yr hen system. Cafwyd nifer o gwynion yn y blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i'r hen system yn methu.

Yn ystod y cyfnod adrodd, dewisodd 2,771 o alwyr i brif linellau'r cyngor yr opsiwn i siarad â'r cyngor yn Gymraeg, gyda'r prif alw am wasanaeth (ar wahân i switsfwrdd y cyngor) yn ymwneud â Threth y Cyngor, Casgliadau Bin a Gollwyd ac Atgyweiriadau Tai.

3.1.3 Trefniadau Staffio

O ran yr Uned Gyfieithu, mae ffyrdd newydd pellach o weithio yn parhau i gael eu gweithredu. Ynghyd â defnyddio cymysgedd o gyfieithwyr mewnol ac allanol.

Mae amserlenni cyfieithu wedi gwella o ganlyniad i:

- Gynyddu ymwybyddiaeth yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol ynghylch cwynion a dderbyniwyd
- Blaengynllunio a chyfathrebu gwell; a
- Gweithio gyda gwasanaethau mewn perthynas â gofynion cyfieithu blynyddol.

Yn ystod 2020-21, cyfieithodd y cyngor 2.4 miliwn o eiriau, cynnydd o hanner miliwn o eiriau ar y flwyddyn flaenorol.

Cyn y pandemig yn 2019-20 crëwyd ardaloedd "Cwtsh Cymraeg" er mwyn i staff ymarfer y Gymraeg pan yn y swyddfa. Roedd y 'Cwtsh – Ysgrifennu yn Gymraeg' rhithwir yn parhau i fod ar gael drwy gydol y flwyddyn i Swyddogion ei defnyddio'n rhithwir.

Mae Hyrwyddwyr y Gymraeg ar waith ar draws gwasanaethau er mwyn cefnogi a hyrwyddo Safonau'r Gymraeg.

Cynhaliwyd adolygiad o'r strwythur corfforaethol ar gyfer Safonau'r Gymraeg ac o ganlyniad crëwyd swydd newydd yn yr Uned Gyfieithu i gynyddu gallu, yn enwedig ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Yn ogystal, crëwyd swydd Swyddog Safonau i gryfhau gallu corfforaethol o ran cydymffurfio. Mae'r Uned Gyfieithu yn wasanaeth ar y cyd â Chyngor Castell-nedd Phort Talbot (CNPT) a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn 2021-22 yn dilyn trafodaethau gyda CNPT.

3.1.4. Systemau Technegol

System gwynion newydd

Yn ystod 2020-21 dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu system newydd i'r cyhoedd gwyno wrth y cyngor, gan gynnwys ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys opsiwn i aelod o'r cyhoedd fewngofnodi ac olrhain cynnydd ei gŵyn yn ogystal â chael cyfathrebiadau diogel gan staff y cyngor yn hytrach na derbyn negeseuon e-bost. Bydd ail gam y datblygiad ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth ynghylch Safonau'r Gymraeg. Bydd y system yn gwella ehangder y broses adrodd ac yn galluogi gwneud penderfyniadau a arweinir gan ddata a hyfforddiant wedi'i dargedu ynghylch Safonau'r Gymraeg a chydymffurfiaeth.

Awtomeiddio

Mae'r cyngor wedi ffurfio partneriaeth â chwmni roboteg yn Llanelli i gyflawni prosiect awtomeiddio cyfieithu Cymraeg. Nod y model hwn yw defnyddio cymysgedd o awtomeiddio a gefnogir gan brawfddarllen gan y staff er mwyn rheoli'r galw am gyfieithu a chynyddu cyflymder, yn enwedig ar gyfer dogfennau mawr iawn.

Uwchraddio'r System Cynllunio Adnoddau Menter

Mae system cyllid, adnoddau dynol, hyfforddiant, pryniadau a thaliadau integredig craidd y cyngor yn cael ei huwchraddio i'r fersiwn *Cloud*. Dilyniad safonau cadw cofnodion wrth lunio adroddiadau o'r system newydd.

3.1.5 Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae Deddf Safonau'r Gymraeg wedi cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol, ac ar draws y cyngor cyfan.

Mae Cyngor Abertawe yn hyrwyddo ymagweddau arfer gorau wrth ddefnyddio'r Gymraeg i wella'r gwasanaeth a gynhigir i ddinasyddion ac ymhlith staff sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Hyrwyddwyr y Gymraeg ar waith yn y gwasanaethau allweddol
- Hyrwyddwyr Ffrindiau Dementia Cymraeg ar waith i hyrwyddo 'cynnig gweithredol' mewn cartrefi gofal/gwasanaethau dydd
- Poster sy'n dangos eiliadau hudol ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Bwrdd cyfathrebu cynhwysol yn Gymraeg ar safle Alexandra Road
- Casglu gwybodaeth am sut mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn hyrwyddo diwylliant Cymru drwy'r arsylwadau ansawdd chwarterol
- Cyflwyno sesiwn Ymwybyddiaeth Ffrindiau Dementia ddwyieithog yn y digwyddiad staff cyn y pandemig
- Cyflwyno prosiect o'r enw "Hen Blant Bach" mewn partneriaeth â Menter Iaith Abertawe, i hyrwyddo gwaith rhwng y cenedlaethau rhwng plant cynradd a phobl sy'n byw gyda dementia trwy gyfrwng y Gymraeg
- Bwletin Hyfforddi Wythnosol gan gynnwys cynnig sesiynau rhagflas Cymraeg i staff Gofal Cymdeithasol
- Staff yn defnyddio apiau ac offer i hyrwyddo gweithio dwyieithog.

3.1.6 “Mwy Na Geiriau”, “More than Just Words”

Er mwyn rhoi'r Fframwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith, mae Abertawe'n parhau i fod yn ymrwymedig i'r fforwm 'Mwy na Geiriau' a phartneriaethau rhanbarthol. Cyfrannodd Abertawe nifer o enghreifftiau o arfer da i'r gwerthusiad cenedlaethol diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o strategaeth 'Mwy Na Geiriau' (Hydref 2020).

3.2 Safonau Lluo Polisiau

3.2.1 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae'r holl benderfyniadau llunio polisiau yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) corfforaethol y cyngor, sy'n ystyried yr effeithiau posib y gallai'r fenter eu cael ar faterion cydraddoldeb.

Er bod hyn yn seiliedig ar ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010)), mae ein proses AEC benodol wedi ehangu'r paramedrau i gyfeirio'n benodol at y safonau a'n rhwymedigaeth i'w bodloni. Mae canllawiau cysylltiedig yn atgyfnerthu'r gofynion hyn. Er bod dealltwriaeth o'r safonau wedi cynyddu'n gyffredinol, mae angen esboniad a chefnogaeth ar swyddogion yn aml wrth gwblhau elfen Gymraeg AEC. Un mater cyffredin yw methiant i drafod cynigion â siaradwyr Cymraeg yn y gymuned.

Yn ystod 2020-21 aseswyd yr holl adroddiadau drwy'r Cabinet/cyngor am yr effaith ar y Gymraeg drwy'r broses AEC. Yn ystod 2021-22 yr amcan yw gwreiddio hyn yn llawn yn yr Asesiad Effaith Integredig (AEI).

3.2.2 Safonau'r Gymraeg ar draws Cynlluniau Strategol

Mae Cyngor Abertawe wedi gwreiddio ei waith ar Safonau'r Gymraeg ar draws ei gynlluniau strategol corfforaethol gan gynnwys:

- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol y cyngor (CCS)** drwy ddefnyddio'r broses AEC ac fel cam i weithredu un o'r amcanion cydraddoldeb. Yn y CCS mae'r cyngor wedi cynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg yn ogystal â'r nodweddion gwarchoddedig ehangach o ran ein hymagwedd at gydraddoldeb
- **Adolygiad Perfformiad Blynyddol Abertawe ar gyfer 2019-20** - Amlygir y Gymraeg yn flaenoriaeth ar gyfer Addysg, ac mae'n disgrifio sut mae'r cyngor yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, a sut mae'r cyngor yn hyfforddi staff
- **Cynllun Corfforaethol Abertawe** - Mae'r Gymraeg wedi cymryd camau yn yr amcanion lles y pwyllgorau Addysg a Sgiliau, a Thrawsnewid a Datblygu'r Cyngor yn y Dyfodol.

3.3 Safonau gweithredol

3.3.1 Adnoddau i Staff

Mae Safonau Gweithredol yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg yn swyddogaethau mewnol y cyngor, gan gynnwys y berthynas rhwng yr awdurdod a'i weithwyr (gan gynnwys yn ystod recriwtio a phenodi), drwy:

- Annog a helpu staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg fel rhan o'u gwaith arferol, o ddydd i ddydd.
- Darparu fframwaith cefnogol i staff er mwyn iddynt wella a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Comisiynodd yr adran Adnoddau Dynol fod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu cyfieithu yn unol â chyfarwyddyd y Safonau ac mae'r rheini ar gael i unrhyw aelod o staff yn ogystal ag ar wefan y cyngor.

Mae mynediad i feddalwedd er mwyn cefnogi staff wrth ddefnyddio'r Gymraeg (e.e. meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg MSOffice a chyfieithu awtomatig) ar gael fel ychwanegiad safonol. Mae gan StaffNet adran sy'n sôn am y 'Gymraeg' <http://www.swansea.gov.uk/staffnet/welsh> sy'n cynnwys adnoddau ategol i staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith, sy'n cynnwys:

- Trosolwg o'r Safonau, ynghyd â gwybodaeth am rôl Comisiynydd y Gymraeg.
- Cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein a ddatblygwyd i ddarparu rhywfaint o gyd-destun cymdeithasol a hanesyddol i'r Gymraeg a'i lle mewn cymdeithas fodern.
- Canllawiau hwylus sy'n rhoi arweiniad cyflym i faes penodol yn y safonau, e.e.:
 - galwadau ffôn
 - e-byst
 - trefnu cyfarfodydd
 - dylunio arwyddion
- Gwasanaethau Cyfieithu i'r Gymraeg - Cyfieithiadau Safonol y gellir eu chwilio amdanynt ar Staffnet i helpu i lunio gwybodaeth safonol gyda darnau bach o ddata amrywiol, er enghraifft:
 - dyddiadau, amserau, lleoliadau
 - negeseuon awtomatig (allan o'r swyddfa)
 - arwyddion safonol *ad hoc*
- Arweiniad i gyfryngau cymdeithasol dwyieithog - rheolau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a gwybodaeth arall ar Twitter, Facebook a chyfryngau cymdeithasol eraill.

- Manylion gwersi Cymraeg a sesiynau ymarfer, gan gynnwys cyrsiau allanol ar wefan <https://www.swansea.ac.uk/cy/academi-hywel-teifi/unedau/dysgu-cymraeg/>
- Digwyddiadau cymdeithasol allanol rheolaidd drwy wefan Menter Iaith Abertawe
- Hyfforddiant yn y Gymraeg i staff - i staff rheng flaen i ddechrau mewn adrannau lle nodwyd bod diffyg siaradwyr Cymraeg
- Manylion Hyrwyddwyr y Gymraeg mewn meysydd gwasanaeth.

3.3.2 Staffnet – Defnydd a hyrwyddo'r Gymraeg gan staff

Mae dros 17,500 o bobl wedi ymweld â thudalennau Staffnet yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r 10 tudalen uchaf am y Gymraeg ar Staffnet rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 yw:

Teitl y Dudalen	Nifer yr ymweliadau
Staffnet Abertawe - Cael rhywbeth wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg	14847
Staffnet Abertawe - Dewch i ddysgu Cymraeg gyda ni! (stori newyddion)	436
Staffnet Abertawe - Ffurflen gais am gyfieithiad Cymraeg (stori newyddion)	378
Staffnet Abertawe - Y Gymraeg	341
Staffnet Abertawe - Nodyn atgoffa gan yr Uned Gyfieithu (stori newyddion)	268
Staffnet Abertawe - ymadroddion Cymraeg - llythyrau ac e-byst, negeseuon allan o'r swyddfa	178
Staffnet Abertawe - Cais am gyfieithiad Cymraeg	169
Staffnet Abertawe - Diwrnod Hawliau'r Gymraeg: Beth yw eich hoff air Cymraeg? (stori newyddion)	158
Staffnet Abertawe - Gwersi Cymraeg i staff	134
Staffnet Abertawe - Diwrnod Hawliau'r Gymraeg (stori newyddion)	86

3.3.4 Staff a Sgiliau Cymraeg

Gellir gweld data a ddarparwyd gan staff (o 31 Mawrth 2021) yn y tablau canlynol:

Cyfanswm nifer y staff â sgiliau Cymraeg (ac eithrio ysgolion) = 416

% â sgiliau Cymraeg yn erbyn nifer y gweithwyr yn y cyngor (ac eithrio ysgolion) = 6.8%

	Deall Cymraeg llafar	Siarad Cymraeg	Darllen Cymraeg	Ysgrifennu Cymraeg	Dysgu Cymraeg	Yn barod i'w defnyddio yn ystod eich gwaith
Ydw	242	181	196	158	171	371
Nac ydw	38	28	29	28	36	257
Heb ei nodi	1348	1419	1403	1443	1425	949
Dewisodd 3% i	0	0	0	0	0	54

beidio â dweud						
----------------	--	--	--	--	--	--

Dadansoddiad yn ôl Cyfarwyddiaeth:

Adran	Nifer y Staff â Sgiliau Cymraeg	Nifer y Staff heb Sgiliau Cymraeg	Canran y Staff â Sgiliau Cymraeg
Lleoedd	178	2,359	7.5%
Adnoddau	50	695	7.2%
Addysg ac eithrio ysgolion	54	847	6.4%
Gwasanaethau Cymdeithasol	134	1,804	7.4%

Dadansoddiad yn ôl Gradd (ac eithrio ysgolion):

Gradd	Nifer y Staff
Dirprwy Brif Weithredwr 1-3	1
Cyfarwyddwr 001-007	1
GRADD_01 01	2
GRADD_02 03	13
GRADE_02A 03A	3
GRADD_03 04	14
GRADD_04 05-06	20
GRADE_04A 05A-06A	2
GRADD_05 07-09	47
GRADD_06 11-17	61
GRADD_07 19-24	68
GRADD_08 25-29	48
GRADD_09 30-34	40
GRADD_10 35-39	24
Gradd_10A 35-37	12
GRADE_10B 38-39	4
GRADD_11 40-44	13
GRADD_12 45-49	12
Pennaeth, Dirprwy Bennaeth ac Athrawon	2
Cynorthwyol 001-043 H00	1
Band Penaethiaid Adrannau_1 07-13	1
Band Penaethiaid Adrannau_2 03-09	5
Prentisiaid	2
Ni roddwyd gradd	2
Arolygwyr Ymgynghori Soulbury 002-011	2
Arolygwyr Ymgynghori Soulbury 019-022	1
Arolygwyr Ymgynghori Soulbury 022-024	2
Seicolegydd Addysg Soulbury 001-009	4
Athro 001-006 W00	6
Athro Trothwy 001-003 P00	3
Athro heb gymhwysu 001-006	

Gweithlu'r Ysgolion

Adroddir ar gyfrifiad gweithlu'r ysgolion i Lywodraeth Cymru yn y fformat penodol hwn:

Cyfrifiad Gweithlu'r Ysgolion 2020: Gallu yn y Gymraeg						
Pob Ysgol	Nifer y Staff			Canran Nifer y Staff		
Lefel	Athrawon	Cymorth	Cyfanswm	Athrawon	Cymorth	Cyfanswm
Lefel Hyfedredd	364	213	577	18.2%	8.9%	13.2%
Lefel Uwch	77	37	114	3.9%	1.5%	2.6%
Lefel Ganolradd	176	58	234	9.1%	2.1%	5.4%
Lefel Sylfaen	416	192	608	21.1%	7.7%	13.9%
Lefel Mynediad	509	750	1259	26.0%	31.3%	28.9%
Dim sgiliau iaith	424	1139	1563	21.5%	48.3%	35.9%
Gwybodaeth heb ei chasglu eto	2	5	7	0.1%	0.2%	0.2%
Cyfanswm	1968	2394	4362			
Cyfrwng Saesneg yn unig	Nifer y Staff			Canran Nifer y Staff		
Lefel	Athrawon	Cymorth	Cyfanswm	Athrawon	Cymorth	Cyfanswm
Lefel Hyfedredd	109	38	147	6.4%	1.7%	3.8%
Lefel Uwch	70	20	90	4.1%	0.9%	2.3%
Lefel Ganolradd	176	52	228	10.3%	2.4%	5.8%
Lefel Sylfaen	416	192	608	24.4%	8.8%	15.6%
Lefel Mynediad	509	750	1259	29.8%	34.2%	32.3%
Dim sgiliau iaith	424	1135	1559	24.9%	51.8%	40.0%
Gwybodaeth heb ei chasglu eto	2	5	7	0.1%	0.2%	0.2%
Cyfanswm	1706	2192	3898			
Cyfrwng Cymraeg yn unig	Nifer y Staff			Canran Nifer y Staff		
Lefel	Athrawon	Cymorth	Cyfanswm	Athrawon	Cymorth	Cyfanswm
Lefel Hyfedredd	255	175	430	97.3%	86.6%	92.7%
Lefel Uwch	7	17	24	2.7%	8.4%	5.2%
Lefel Ganolradd		6	6	0.0%	3.0%	1.3%
Lefel Sylfaen				0.0%	0.0%	0.0%
Lefel Mynediad				0.0%	0.0%	0.0%
Dim sgiliau iaith		4	4	0.0%	2.0%	0.9%
Gwybodaeth heb ei chasglu eto				0.0%	0.0%	0.0%
Cyfanswm	262	202	464			

3.3.5 Swyddi Newydd a Gwag

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o nifer y swyddi newydd neu wag a hysbysebwyd gan yr awdurdod ac mae'n dangos lefelau'r sgiliau Cymraeg y mae eu hangen ar gyfer y rôl. Lefel 1 yw'r lefel fwyaf sylfaenol o ddealltwriaeth a Lefel 5 yw'r un fwyaf datblygedig. Mae'r cais am sgiliau Cymraeg fel sgil dymunol wedi cynyddu'n sylweddol o 54 y llynedd i 316 yn 2020-21. Yn y flwyddyn i ddod bydd y cyngor yn archwilio:

- Ffyrdd o ddenu siaradwyr Cymraeg i weithio i'r cyngor o ysgolion cyfrwng Cymraeg, prifysgolion a cholegau addysg bellach
- Cymraeg gorfodol wrth recriwtio oni bai fod prinder penodol yn y farchnad am sgil penodol.

Y lefel sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol	Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd
Lefel 1	310
Lefel 2	2
Lefel 3	3
Lefel 5	3
Ddim yn Ofynnol	0
Dymunol	316
I'w dysgu	1

3.3.6 Hyfforddi Staff

Mae Grŵp Cymorth Hyfforddiant Iaith Cymraeg wedi'i sefydlu, sy'n cwrdd yn fisol er mwyn gwella cyfleoedd i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg.

O ran hyfforddiant ffurfiol, yn 2020-21 roedd:

- 15 o gyfranogwyr ar Fynediad Lefel 1 (Dim newid o'r llynedd)
- 4 cyfranogwr ar Fynediad Lefel 2 (wedi gostwng 5 o'r llynedd)
- 1 ar Sylfaen. (Cynnydd o'r llynedd)
- 21 Sesiynau Rhagflas (Newydd eu hadrodd amdanynt eleni).

3.3.7 Cwtsh Cymraeg

Oherwydd pandemig COVID-19, mae swyddogion bellach yn gweithio gartref ac felly nid yw staff wedi gallu defnyddio'r 'Cwtsh Cymraeg' yn y swyddfeydd yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, roedd 'Cwtsh – Ysgrifennu yn Gymraeg' rhithwir *Microsoft Teams* yn parhau i fod ar gael drwy gydol y flwyddyn i Swyddogion ei defnyddio'n rhithwir.

3.3.8 Cyfathrebu â staff

Mae'r cyfathrebu a gyhoeddir yn ganolog ac a anfonir at grwpiau o staff yn Saesneg (fel y caniateir o dan y Safonau).

3.3.9 Cyfarfodydd

Yn ystod 2020-21 symudodd pob cyfarfod ar-lein drwy *Microsoft Teams* gan gynnwys cyfarfodydd y cyngor, y Cabinet, pwyllgorau a Chraffu. Yn ystod C4, llwyddodd y cyngor i sicrhau grant democratiaeth ddigidol i dyfu gallu e-ddemocratiaeth y cyngor. Mae cyfieithu ar y pryd yn symud i amgylchedd rhithwir yn y model newydd hwn. Bydd hyn yn galluogi cyfarfodydd hybrid fel model parhaus gyda'r nod o annog mwy o gyfranogiad yn y broses ddemocrataidd gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Er mai *Teams* yw'r offeryn corfforaethol o hyd, mae trwyddedau *Zoom* wedi'u caffael ar gyfer hwyluswyr i alluogi cyfieithu ar y pryd.

3.4 Safonau Cadw Cofnodion

Cwynion

Ymdrinnir â chwynion mewn perthynas â'r Gymraeg a/neu gwynion a dderbynnir yn Gymraeg am unrhyw agwedd ar ddarparu gwasanaeth yn unol â pholisi cwynion corfforaethol y cyngor. Adolygwyd a diweddarwyd y Polisi Cwynion yn ddiweddar a gofynnwyd am adborth/arweiniad gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r polisi diwygiedig i'w weld yn Atodiad 1.

Mae adran 13 o'r Polisi Cwynion diwygiedig yn ymdrin yn gyfan gwbl â chwynion sy'n ymwneud a'r Gymraeg er mwyn cydymffurfio â'r Safonau. Mae'r polisi'n nodi'r broses, yr amserlenni, y swyddogion cyfrifol, a hyfforddiant a chyfathrebu staff ynghylch cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Fel yr amlygwyd yn gynharach yn adran 3.1.4, bydd y system gwynion newydd a'r system Cynllunio Adnoddau Menter wedi'i huwchraddio yn gwella ehangder yr adrodd. Bydd hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau a arweinir gan ddata a hyfforddiant wedi'i dargedu ynghylch Safonau'r Gymraeg a chydymffurfiaeth.

Derbyniwyd pum cwyn, a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg, yn uniongyrchol i'r cyngor yn ystod y cyfnod adrodd Ebrill 2020 - Mawrth 2021. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud o ran ymwybyddiaeth ymhlith staff, yn enwedig o ran y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau gan fod yr holl gwynion yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r categori hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Grŵp Safonau	Manylion y Gŵyn	Camau Gweithredu a Gymerwyd
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Nid yw'r dudalen Facebook yn Gymraeg	Mae dau gyfrif Facebook, un yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg yn hytrach na negeseuon dwyieithog ar un cyfrif. Roedd hyn yn dilyn canllawiau gan y Comisiynydd ac fel argymhelliad o waith monitro'r Comisiynydd. Rhoddwyd esboniad o fewn y dyddiad cau ar gyfer ymdrin â chwynion.
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Ni chafwyd ymateb i e-bost a anfonwyd at y tîm Gwastraff	Anfonwyd yr e-bost gwreiddiol at lechyd yr Amgylchedd nad oeddent yn gallu dod o hyd i unrhyw ohebiaeth. Ar ôl i'r tîm Cwynion ei dderbyn, darparwyd ymateb i'r ymholiad gan Wastraff o fewn y dyddiad cau ar gyfer ymdrin â chwynion
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Methu talu Treth y Cyngor yn Gymraeg	Gall preswylwyr dalu Treth y Cyngor yn Gymraeg, camgymeriad oedd hwn gan aelod o staff. Cyhoeddwyd ymddiheuriad a darparwyd yr wybodaeth ar gyfer gwneud taliad drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y dyddiad cau ar gyfer ymdrin â chwynion
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Hysbysiadau cynllunio nad oeddent yn Gymraeg	Mae rheolau eithrio yn berthnasol – mae'r cyngor hefyd wedi ymgysylltu â'r Comisiynydd ar hyn. Darparwyd

Grŵp Safonau	Manylion y Gŵyn	Camau Gweithredu a Gymerwyd
		esboniad o fewn y dyddiad cau ar gyfer ymdrin â chwynion.
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Camsillafu ar arwydd ffordd	Archebwyd arwydd newydd unwaith y gwnaed swyddogion yn ymwybodol o'r camgymeriad. Rhoddwyd ymateb ac ymddiheuriad i'r preswlydd o fewn y dyddiad cau ar gyfer ymdrin â chwynion.

4. Addysg Gymraeg

Mae datblygiad y Gymraeg yn y dyfodol ar draws Abertawe a thu hwnt yn gysylltiedig mewn ffordd sylfaenol ag Addysg Gymraeg, ac ymdrinnir â'r agwedd hon yn benodol yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y cyngor. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n drafftio ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd cyntaf. Ymgynghorir ar hyn yn hydref 2021 a bydd y cynllun yn mynd yn fyw ym mis Medi 2022.

Mae 11 ysgol gynradd Gymraeg bellach sy'n bwydo dwy ysgol uwchradd – Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe.

Caiff nifer y disgyblion sy'n mynychu sefydliadau addysg Gymraeg yn y tri grŵp oedran, a chanrannau cyffredinol pob grŵp oedran y mae'r ffigurau hyn yn eu cynrychioli, eu hamlinellu yn y tablau isod.

2020-2021

Cofrestrau ysgolion	Cyfanswm ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y disgyblion mewn darpariaeth Gymraeg	Canran y disgyblion mewn ffrydiau Cymraeg
Cynradd	21159	3157	14.92%
Bl. 7-11	12859	1674	13.02%
Bl.12-13	1507	315	20.90%
Cyfanswm	35525	5146	14.49%

2019-2020

Cofrestrau ysgolion	Cyfanswm ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y disgyblion mewn darpariaeth Gymraeg	Canran y disgyblion mewn ffrydiau Cymraeg
Cynradd	22190	3519	15.9%
Bl. 7-11	12331	1503	12.2%
Bl.12-13	1358	273	20.1%
Cyfanswm	35879	5295	14.8%

2018-2019

Cofrestrau ysgolion	Cyfanswm ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y disgyblion mewn darpariaeth Gymraeg	Canran y disgyblion mewn ffrydiau Cymraeg
Cynradd	22147	3306	14.9%
Bl. 7-11	12246	1503	12.3%
Bl.12-13	1318	273	20.7%
Cyfanswm	35711	5082	14.2%

Mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, enillodd dros 89.4% o ddisgyblion raddau A*-C yn 2020, ac mae'r niferoedd sy'n dewis y pwnc wedi cynyddu'n gyson yn yr wyth mlynedd hyd at 2020.

Mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith (cwrs llawn), enillodd dros 76.5% raddau A*-C yn 2020, ac mae'r niferoedd sy'n dewis y pwnc wedi cynyddu yn yr wyth mlynedd ers 2012 o 239 o ymgeiswyr i 1803 o ymgeiswyr yn 2020. Mae'r cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr yn rhannol oherwydd y bwriad i ddileu opsiwn y cwrs byr yn y pwnc hwn, a bydd yr holl ymgeiswyr yn dilyn y cwrs llawn o 2019.

Mae'r perfformiad yn y Gymraeg hefyd yn gryf yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, ond ni chasglwyd unrhyw ddata yn 2020 oherwydd y pandemig.

5. Casgliadau ac Argymhellion

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol iawn i'r cyngor oherwydd pandemig COVID-19 gyda staff a chynghorwyr yn cael eu dargyfeirio i gefnogi'r gymuned yn uniongyrchol, yn enwedig y rhai mwyaf diamddiffyn. Cafodd adnoddau eu dargyfeirio i flaenoriaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19, yn enwedig ar ddechrau'r pandemig. Er gwaethaf hynny, parhaodd y cyngor i gefnogi a chyflawni Safonau'r Gymraeg fel y profir gan enghreifftiau drwy gydol yr adroddiad hwn.

Fodd bynnag, mae meysydd y mae angen canolbwyntio a gwella arnynt yn y flwyddyn i ddod, gan gynnwys:

- O ran deunyddiau hyrwyddo, adolygu gweithdrefnau brys a phrofiadau o'r pandemig o ran y ddarpariaeth yn Gymraeg a Saesneg
- Gwella ymwybyddiaeth staff o'r safonau cyflenwi gwasanaethau – dyma'r categori y cafwyd y mwyaf o gwynion amdano yn ystod y flwyddyn
- Sesiynau hyfforddi/ymwybyddiaeth i lunwyr polisi ar y canllawiau côd ymarfer i sicrhau bod yr effaith ar y Gymraeg yn cael ei hasesu'n drylwyr ac yn ystyrlon.

Mae meysydd gwaith eraill yn y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

- Sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Cwblhau'r prosiect e-Ddemocratiaeth – gwella cyfranogiad gan gynnwys ar gyfer siaradwyr Cymraeg
- Swyddog Safonau yn ei swydd - cwblhau'r gwaith recriwtio
- Cwblhau'r prosiect awtomeiddio yn yr Uned Gyfieithu

- f) Cwblhau'r system gwynion newydd
- ff) Adolygu a diweddarau'r strategaeth a'r cynllun pum mlynedd
- g) Fel rhan o'r gwaith strategaeth, archwilio ffyrdd o ddenu siaradwyr Cymraeg i weithio i'r cyngor o ysgolion cyfrwng Cymraeg, prifysgolion a cholegau addysg bellach
- ng) Treialu proses y panel torri rheolau – mae hyn eisoes yn gweithio'n dda ar gyfer diogelu data a'r gobaith yw y gellir adlewyrchu'r broses ar gyfer gwaith cydymffurfio Safonau'r Gymraeg
- h) Adolygu'r Gwasanaeth Cyfieithu ar y cyd â Chyngor Castell-nedd a Phort Talbot i sicrhau gwasanaethau cyfieithu digonol
- i) Yr effaith ar y Gymraeg i'w hymgorffori'n llwyr yn yr Asesiad Effaith Integredig (AEI)
- j) Archwilio Cymraeg fel sgil gorfodol wrth recriwtio oni bai fod prinder penodol yn y farchnad ar gyfer sgil penodol.